# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11eg Chwefror, 2025 |
| **Aelodau Cabinet:** | Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Teitl yr Eitem:** | Addasiad i Gynllun y Cyngor |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir am gymeradwyaethi ychwanegu prosiect Gofal Cartref i'r rhestr prosiectau o dan faes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgaryng Nghynllun y Cyngor 2023 - 2028

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau fod cytundeb i'r addasiadau a awgrymir ar gyfer y maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun y Cyngor, cyn eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer eu mabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2025.

## 3 CYFLWYNIAD

### Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Pwrpas y Cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam fod y Cyngor am ganolbwyntio ei egni a'n a'i adnoddau mewn rhai meysydd. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth.

Er bod y Cynllun yn gosod blaenoriaethau ar gyfer cyfnod 5 mlynedd llawn y Cynllun, mae'r broses o'i baratoi a'i fonitro yn cynnwys trefn i'w adolygu'n gyson. Mae'r broses o adolygu'r Cynllun a gwneud man addasiadau iddo ar gyfer 2025 – 26 yn digwydd ar hyn o bryd.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Un o'r saith maes blaenoriaeth yn y Cynllun ydi Gwynedd Ofalgar. Yr uchelgais ar gyfer y maes hwn ydi 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau.'

Mae'r Cynllun yn amlygu bod gofalu am unigolion bregus yn un o'i brif gyfrifoldebau a'r uchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn eu cymunedau.

Mae'r Cynllun yn nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac yn adnabod wyth prosiect/rhaglen blaenoriaeth i wella darpariaeth a chryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni'r uchelgais ar ran trigolion Gwynedd.

Yn ystod misoedd Hydref a Tachwedd 2024 bu i Arolygaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliadau o wasanaethau gofal a ddarperir gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Yn ystod yr un cyfnod cynhalwyd archwiliad cefnogi o wasanaethau pobl hyn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Comisiynwyd yr archwiliad yma fel dilyniant i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Llechen Lan. Mae casgliadau'r tri archwiliad yma yn cynnwys cyfeiriadau at wasanaethau gofal cartref a ddarperir neu a gomisiynir gan y Cyngor ac yn codi cwestiwn am flaenoriaeth y maes yng nghynlluniau strategol y Cyngor.

Yn dilyn trafodaethau gyda CLlLC a Swyddfa Archwilio Cymru, cafwyd cadarnhad y byddai cynnwys Gofal Cartref fel prosiect penodol o fewn maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar yng Nghynllun y Cyngor yn cael ei ystyried fel gam cyntaf allweddol i ymateb i'w canfyddiadau trwy rhoi pwyslais priodol ac angenrheidiol ar faes sydd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Cyngor.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff gyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Os y bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad, byddwn yn gofyn i'r Cyngor Llawn gytuno i gynnwys Gofal Cartref fel un o'r prosiectau dan faes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 28 yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth.

## 6 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

### Prif Swyddog Cyllid

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Mae tystiolaeth, gan gynnwys gwaith gan yr Adran Gyllid ymysg eraill, yn dangos fod y maes Gofal Cartref yn un sydd angen blaenoriaeth a sylw. Ar y llaw arall, bydd aelodau'r Cabinet yn ymwybodol fod y prosiectau yng Nghynllun y Cyngor eisoes yn cystadlu am adnoddau hynod gyfyngedig ac fel amlygwyd pan fabwysiadwyd y Cynllun yn 2023, mae gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun eisoes yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt."

### Swyddog Monitro

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

## 7 ATODIADAU

Dim